FLVC
Flintshire Local **Voluntary** Council
CGLISFf
Cyngor **Gwirfoddol** Lleol Sir Fflint

# Adroddiad Effaith Blynyddol 2021/22

25

## Cefnogi, Hyrwyddo a Datblygu y Sector Gwirfoddol a Chymunedol

# EIN HYMDDIRIEDOLWYR

o fis Ebrill 2021

**Barbara Roberts** Cadeirydd

**Paul Hinchliffe**

**Wendy Carter**

**Pip Perry MBE**

**Liz Holland**

**Marjorie Thomson**

**John Hatton**

**Tim Byram**

**Rhiannon Bidwell**

**Bill Brereton**

**Lee Tiratira**

**Peter Agnew**

**Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint**
CORLAN
Uned 3 Parc Busnes yr Wyddgrug
Ffordd Wrecsam
YR WYDDGRUG
Sir y Fflint CH7 1XP

01352 744000
info@flvc.org.uk

**www.flvc.org.uk**

@FLVCnews flvcpage

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif 3301204
Rhif Elusen Gofrestredig 1062644

# EIN STAFF

o fis Ebrill 2021

**Ann Woods** Prif Swyddog

**Sarah Owens** Rheolwr Datblygu Trydydd Sector (Gwasanaethau Craidd)

**Millie Boswell and Kate Newman** Rheolwr Datblygu Trydydd Sector (Iechyd a Gofal Cymdeithasol)

## Tîm Gweinyddol

**Nicola Valentine** Uwch Weinyddwr
**Karen Peters** Gweinyddwr

## Canolfan Gwirfoddolwyr

**Debbie Long** Uwch Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

**Claire Worrall** Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

**Kris Kordiak** Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

**Mallaidh Long** Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

## Cyllid a Llywodraethiant

**Shaun Darlington** Rheolwr Datblygu Trydydd Sector (Cyllid a Llywodraethiant)

**Heather Hicks** Rheolwr Datblygu Trydydd Sector (Cyllid)

## Tîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Kate Howard** Rheolwr Datblygu Trydydd Sector (Iechyd a Gofal Cymdeithasol)
**Dafydd Gwynedd** Cydlynydd Trydydd Sector (SPoA)
**Joanne Overton-Jones** Cydlynydd Trydydd Sector (Hyb Help Cynnar)
**Nia Lloyd-Williams** Cydlynydd Trydydd Sector (SPoA a Hyb Help Cynnar)
**Hannah Dovey** Cydlynydd Trydydd Sector (Pobl Ifanc a Theuluoedd Ifanc)
**Charlotte Anderton** Cydlynydd Trydydd Sector (SPoA)
**Robyn Lee** Cydlynydd Trydydd Sector (Hyb Help Cynnar)

# CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT

Rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

## CEFNDIR...

**CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT** yw'r sefydliad ymbarél a chefnogi annibynnol ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint. Mae'n un o 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol yng Nghymru a dechreuodd weithredu yn 1997. Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn elusen gofrestredig (1062644) ac yn gwmni cyfyngedig (3301204). Mae ganddo hyd at 15 o gyfarwyddwyr ymddiriedolwyr a ddaw'n bennaf o'r sector gwirfoddol lleol gyda 16 o staff, rhan-amser a llawn-amser. Ers 2008 bu'n seiliedig yn CORLAN ar Barc Busnes yr Wyddgrug. Mae ganddo dros 220 aelod a daw ei gyllid o amrywiaeth o ffynonellau yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Teuluoedd yn Gyntaf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Rydym yn rhan o seilwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Y nod a rannwn yw galluogi'r trydydd sector a gwirfoddolwyr ar draws Cymru i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr a hefyd ar gyfer y dyfodol.

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn rhwydwaith cefnogi ar gyfer yr holl drydydd sector yng Nghymru. Mae'n cynnwys 19 o gyrff cefnogi lleol a rhanbarthol ar draws Cymru, y Cynghorau Gweithredu Sirol a'r corff cefnogi cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Rydym yn gweithio gyda dinasyddion, gwirfoddolwyr a grwpiau trydydd sector i ddynodi a thrin yr hyn sy'n bwysig iddynt. Rydym yn cyflawni y nod a rannwn i gydweithio gyda phartneriaid allweddol eraill ar draws y trydydd sector, y sector cyhoeddus, busnes, ymchwil a chyllidwyr.

**Mae gennym bedwar piler gweithgaredd sy'n ffurfio ein cynnig cyffredinol, sef:**

- Gwirfoddoli
- Llywodraethiant da
- Cyllid cynaliadwy
- Ymgysylltu a dylanwadu

**Mae gan ein gwaith ffocws eang ar themâu cyffredin:**

- Gwybodaeth a chyngor
- Dysgu a datblygu
- Rhwydweithio a chyfathrebu
- Llunio, dylanwadu ac adeiladu'r cyfalaf cymdeithasol a chydnerthedd y sector
- Codi proffil y sector

“Rydym yn gwybod bob amser fel elusen gymunedol fach bod FLVC wrth law ar gyfer unrhyw gefnogaeth sydd arnom ei hangen.”

“Adnodd gwych i elusennau lleol a grwpiau 3ydd sector! Daliwch ati – rydym i gyd yn gwerthfawrogi eich bod chi yna i ni.”

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT 2022



Ar ôl heriau'r ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n rhagorol bod ein Staff, Ymddiriedolwyr a Gwirfoddolwyr yn awr yn gallu cyfarfod eto yn y cnawd.

Mae FLVC wedi wynebu llawer o heriau yn ystod y pandemig ond rwy'n teimlo bod y sefydliad wedi bod yn gadarn a pharhau i gynyddu proffil y trydydd sector yn Sir y Fflint o ran y modd y mae wedi ymateb i'r heriau hynny.

Ein gweledigaeth yw galluogi Trydydd Sector cryf, cynaliadwy ac effeithiol - gan gynnwys a gwasanaethu pobl a chymunedau Sir y Fflint.

Rydym yn parhau yn ein gwaith yn rhoi gwybodaeth, cyfarwyddyd a chefnogaeth i Grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol i'w galluogi i gryfhau eu gallu i wella ansawdd bywyd pobl a'n cymunedau. Agwedd bwysig o'n gwaith yw cynrychioli'r trydydd Sector ar lefel Strategol, y mae ein staff yn parhau i'w wneud yn effeithiol iawn.

Gellir profi hyn trwy'r partneriaethau gwaith rhagorol yr ydym wedi eu datblygu gyda'n cydweithwyr Statudol a Thrydydd Sector – fel sefydliad rydym yn ymfalchïo yn ein dull o weithio gyda'n gilydd gyda phartneriaid mewn ffordd agored a didwyll i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'r rhai yr ydym yma i'w cefnogi.

Rhaid diolch i staff ymroddedig FLVC sydd wedi gweithio'n ddiflino yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a hefyd i'm cyd aelodau o'r Bwrdd sy'n rhoi eu hamser i helpu i lywio ein sefydliad yn y cyfeiriad cywir.

**Barbara Roberts**
Cadeirydd FLVC 2022

# ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG



Mae Cyngor Gwirfoddol Sir Fflint wedi bod yn hyrwyddo, datblygu a chefnogi gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol am dros 25 mlynedd. Fel tîm rydym yn ymfalchïo mewn ymateb i'r anghenion cymunedol fel y maent yn newid ac yn chwilio am bob cyfle i wrando a dysgu oddi wrth y rhai yr ydym yma i'w cefnogi.

Newidiodd ein profiadau dros y blynyddoedd diwethaf ein ffyrdd o weithio'n ddramatig. Ein gweithwyr allweddol sydd wedi wynebu'r heriau mwyaf ac rwy'n teimlo bod cydnabyddiaeth gyffredinol i'r rhan y gall y Trydydd Sector ei chwarae wrth gefnogi a gwella ein cymunedau lleol. Trwy weithio'n rhithwir rwyf i a'm cydweithwyr yn gallu mynychu nifer o gyfarfodydd cenedlaethol/ rhanbarthol mewn diwrnod, sydd wedi cynyddu'r amser ar gyfer trafodaethau manwl gyda'n cydweithwyr Iechyd, Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru. Ond wrth i ni ddychwelyd i'n swyddfeydd a'n rhyngweithio cymdeithasol yn 2022 rydym wedi sylweddoli pa mor bwysig yw cyfeillgarwch a rhyngweithio â phobl i'n llesiant.

Ni ellir gorbwysleisio gwerth gwirfoddoli (i'r gwirfoddolwr a'r rhai sy'n cael eu helpu gan eu gweithredoedd). Os ydych yn meddwl am wirfoddoli neu eich bod yn gysylltiedig â grŵp cymunedol ac y byddech yn hoffi sgwrsio am eich gwaith neu eich bod yn meddwl am gychwyn rhywfaint o gefnogaeth gymunedol – fe allwn ni helpu. Wrth symud ymlaen rydym yn edrych ar wneud y mwyaf o'r cyfleoedd yma i ni eich cyfarfod chi ein rhanddeiliaid i gael gwybod beth sydd o bwys i chi.

A fyddai sgwrs anffurfiol gydag aelod o'n tîm yn eich helpu i ddatblygu eich polisi a/neu ymarfer? Sut y gall FLVC eich cynrychioli'n well ar lefel Strategol? Gadewch i ni wybod.

Ar ran holl breswylwyr Sir y Fflint, rwy'n diolch yn ddiffuant i bawb sy'n gysylltiedig â FLVC, gan gynnwys ein Staff, Ymddiriedolwyr, Gwirfoddolwyr ac aelodau ac i gydweithwyr sy'n cefnogi ein gwaith.

Gyda diolch

**Ann Woods** Prif Swyddog FLVC

01352 744028
ann.woods@flvc.org.uk



> Diolch i chi am fy helpu i wirfoddoli – rwyf wedi dod yn fwy hyderus ac rwyf wedi dysgu siarad ag eraill yn haws.

# GWIRFODDOLI

**Mae tîm ein Canolfan Gwirfoddolwyr yma i:**

- Hyrwyddo arfer da ac arloesedd mewn gwirfoddoli – i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan a chynyddu effaith gwirfoddoli;
- Rhoi gwybodaeth, arweiniad a chyfeirio – ar gyfer unigolion i wirfoddoli ac i sefydliadau ddatblygu lleoliadau gwirfoddoli da;
- Rheoli cronfa ddata o gyfleoedd gwirfoddoli – ar gyfer trefnu a rheoli gwirfoddoli;
- Hwyluso rhwydweithiau a hyfforddiant – ar gyfer dysgu, rhannu a gwella profiad gwirfoddoli yn barhaus;
- Trefnu digwyddiadau, hyrwyddiad a chydnabyddiaeth – i annog a dathlu llwyddiant gwirfoddolwyr a hyrwyddo cyfraniad gwirfoddoli i lesiant Cymru;
- Gweinyddu a hyrwyddo rhaglenni grant – i ddatblygu capasiti sefydliadau i recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr.

# BETH WNAETHOM NI EI GYFLAWNI?

Yn ystod y pandemig fe wnaethom chwarae rhan allweddol wrth gyfateb cynigion o gymorth gyda cheisiadau am help gan ein cymunedau lleol. Mae ein Prosiect Gwirfoddoli mewn Gofal Cymdeithasol wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol fel model o ymarfer da

> "Mwy na rhagorol. Mae'r tîm yn ased anferth i FLVC"

Dros y flwyddyn cafodd 465 o unigolion eu cefnogi i gael mynediad i gyfleoedd gwirfoddoli

Cafodd dros 110 o fudiadau yn Sir y Fflint eu cefnogi i ddatblygu arfer da mewn rheoli gwirfoddolwyr

Cynhaliwyd 6 Fforwm Rhwydwaith gwirfoddolwyr yn ystod y dyfodol gyda chyfanswm o 89 o gyfranogwyr yn mynychu

Mynychodd y tîm dros 70 digwyddiad/cyfarfod i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwirfoddolwyr ar draws Sir y Fflint a thu hwnt

Galluogodd ein prosiectau Cefnogi Gwirfoddoli 201 unigolyn (gydag anghenion cymorth ychwanegol) i gael mynediad i gymwysterau gydag achrediad a sesiynau blasu gwirfoddoli ar draws Sir y Fflint

> "Cyfathrebu gwych ac fe wnaeth y grŵp y buont yn gweithio gyda nhw waith anhygoel yn gwirfoddoli ac fe wnaethon nhw i gyd gael cymhwyster."

# LLYWODRAETHU DA

Prif nod gwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru ar; lywodraethiant da yw i'r rhai sy'n ymwneud â rhedeg sefydliadau trydydd sector arwain eu sefydliadau yn effeithlon a chynnal safonau uchel o lywodraethiant.



**Ein deilliannau yw i'r rhai sy'n ymwneud â rhedeg sefydliadau trydydd sector:**

- gael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar lywodraethu da;
- gael mwy o hyder wrth arwain eu sefydliadau;
- gael gwell gallu i recriwtio a chadw ymddiriedolwyr medrus;
- gael mwy o sgiliau i arwain eu sefydliadau.

## Beth wnaethom ni ei gyflawni?

Derbyniodd ein gwefan dros 24,500 ymwelydd a chafodd gwybodaeth ei lledaenu i sefydliadau drwy e-grwpiau

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chydweithwyr mewn awdurdodau lleol i gefnogi sefydliadau a safleoedd cymunedol gyda'u polisi ac ymarfer ar gyfer 'ail agor' wrth i gyfyngiadau Covid 19 lacio

120 mudiad wedi eu cefnogi gyda materion; lywodraethiant

263 ymholiad ymddiriedolwyr wedi eu derbyn ac ymateb iddynt

"Bu'r gefnogaeth hon yn amhrisiadwy wrth ein cynorthwyo i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol a sicrhau ein bod wedi cyflawni popeth y mae angen i ni ei wneud."

# CYLLID CYNALIADWY



> Help hollol amhrisiadwy – dealltwriaeth wych – fe wnaethom gael y cyllid yr oedd arnom ei angen.

## Mae ein gwasanaeth Cymorth Cyllido yn anelu i helpu

- Sefydliadau trydydd sector i fod yn effeithlon wrth sicrhau ac ysgogi'r adnoddau y maent eu hangen i oroesi a thyfu
- Sefydliadau trydydd sector i fod yn gydnerth a bod â'r sgiliau, gwybodaeth a chapasiti i gynnal eu sefydliadau

## Beth wnaethom ni ein gyflawni?

Cefnogi 126 o fudiadau cymunedol a gwirfoddol i gael mynediad i dros £479,200 o nifer o ffynonellau cyllid

Cynhaliwyd Digwyddiadau Cyfarfod y Cyllidwyr Digidol gyda

- Sefydliad Cymunedol Cymru
- Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol
- Sefydliad Bernard Sunley

Fe wnaethom weinyddu 7 cronfa grant (cyfanswm o 132 o grantiau unigol wedi eu dyfarnu):

- Rhoddodd Cist Gymunedol CSyFf 58 grant, cyfanswm o £42783
- Dyfarnodd Grantiau Dan Arweiniad Ieuenctid Sir y Fflint 6 grant, cyfanswm o £5,000
- Rhoddodd Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol £21048 – dyfarnwyd 15 grant
- Dyfarnodd Cronfa Pwysau'r Gaeaf Sir y Fflint 11 grant – cyfanswm o £40,000
- Dyfarnodd Cronfa Unigrwydd ac Ynysu Cymdeithasol Sir y Fflint 9 grant – cyfanswm o £20,169
- Roedd grant Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu FLVC yn £97,538 i gyd (27 grant wedi eu dyfarnu)
- Dyfarnwyd 6 grant, cyfanswm o £15,000 i Grant Cymorth Holway

# ENGAGEMENT and INFLUENCING

## Fel aelod o Cefnogi Trydydd Sector Cymru gweithiwn i sicrhau bod

- Cyrff cyhoeddus yn cydnabod gwerth cyfraniad presennol a chyfraniad posibl sefydliadau Trydydd Sector
- Sefydliadau Trydydd Sector â rhan weithgar wrth ymgysylltu a gweithio gyda phobl a cymunedau, yn cynnwys grwpiau na chânt eu clywed yn aml;
- Sefydliadau Trydydd Sector â'r sgiliau a'r gallu i ddylanwadu a llunio polisi yn effeithlon ar bob lefel;
- Sefydliadau Trydydd Sector yn ymgysylltu'n ystyrlon gyda'i gilydd ac yn eu tro gyda chyrff cyhoeddus mewn datblygu polisi a chyd-gynhyrchu gwasanaethau;
- Lleisiau unigolion a grwpiau yn llywio a dylanwadu ar ddatblygiad polisi, cynllunio a darparu gwasanaeth.

> Mae FLVC yn bartner gwych mewn nifer o feysydd gwaith a phrosiectau. Rwy'n gwirioneddol fwynhau cydweithio ac mae'r tîm yn eithriadol gydag agwedd bod popeth yn bosibl ac yn angerddol dros bobl a newid cadarnhaol. Diolch.

## Beth wnaethom ni ei gyflawni

- Rydym wedi cyfarfod yn gyson gyda phartneriaid Statudol a Thrydydd Sector fel rhan o'r Cynllunio Ymateb ac Adfer ar ôl Covid 19 yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Rydym wedi gweithio gyda Chyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddylanwadu ar arferion caffael i gael dull amlasiantaethol mewn Gwasanaethau Cyhoeddus
- Rydym wedi arwain ar waith fel rhan o Ffrydiau Gwaith 'Gwytnwch Cymunedol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd Sir y Fflint a Wrecsam
- Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid TSSW ar y Strategaeth Ddysgu a Datblygu genedlaethol, y ffrwd gwaith Impact a Chymuned Ymarfer Diogelu
- Rydym wedi gweithio gyda gweithgor cenedlaethol yn archwilio dewisiadau ar gyfer Gwirfoddoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac wedi datblygu rhaglen yn Sir y Fflint i roi cymorth i'r sector gofal
- Ochr yn ochr â'n tîm cyllido rydym wedi gweithio gyda phartneriaid statudol i ddwyn dros £470,000 o arian grant i'r trydydd sector. Ochr yn ochr â'r cyllid hwn rydym yn gallu cynnig cymorth trwy gysylltiadau, syniadau a dolenni i sicrhau bod sefydliadau yn gallu gwneud y mwyaf o'u grantiau.
- Rydym wedi bod yn rhan o'r prosiect a ariannwyd gan y loteri Meddwl Ymlaen mewn partneriaeth ag 20 o sefydliadau trydydd sector i gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Rydym wedi cefnogi adolygiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o gyllid trydydd sector a darparu/comisiynu gwasanaeth a mynd â'r adolygiad i'r sector ehangach iddynt gymryd rhan.
- Rydym yn gyson yn cyfarfod grwpiau cymunedol newydd ac sy'n bodoli a sefydliadau elusennol i'w cysylltu â'r sector ehangach a phartneriaid statudol.



# IECHYD a GOFAL CYMDEITHASOL

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyllido swyddi allweddol Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol o fewn pob Cyngor Gwirfoddol Sirol yng Ngogledd Cymru. Mae'r swydd hon yn ddolen strategol allweddol rhwng sefydliadau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thrydydd Sector. Mae gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint hefyd dîm Presgripsiynu Cymdeithasol, sy'n gweithio gyda chydweithwyr yn y sector statudol i gysylltu preswylwyr Sir y Fflint gyda gwasanaethau iechyd a llesiant seiliedig yn y gymuned.

## Yn 2021/22 fe wnaethom

Cyfrannu at gynllunio ymateb ac adferiad lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar Covid 19 ar lefel strategol a gweithredol

Rydym hefyd yn rhedeg rhwydwaith i bobl sy'n gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn Sir y Fflint, y bydd hyd at 30 yn eu mynychu gan gynnig cyfleoedd i rwydweithio a chydweithio

Ehangu ein Tîm Presgripsiynu Cymdeithasol o 5 i 6 aelod o staff

Mae ein rhagnodwyr cymdeithasol yno i wrando ar yr hyn sydd o bwys i unigolion a'u cyfeirio at y cymorth cywir. Mae'r unigolion yr ydym yn siarad â nhw yn gwerthfawrogi ein gwrandawiad a'n harbenigedd

Rydym wedi darparu cymorth rhagnodi cymdeithasol allestyn i ffoaduriaid o Wcráin ac Afghanistan

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 21 hyd 31 Mawrth 22 rhoddodd y tîm rhagnodi cymdeithasol oedolion gymorth i 1242 o unigolion a rhoddodd y tîm plant a phobl ifanc gymorth i 275

Datblygu pecyn pwrpasol o gymorth gwirfoddolwyr i helpu o fewn gosodiadau Gofal Cymdeithasol

Cynnal cyfarfodydd Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn cysylltiad â AVOW yn Wrecsam, gan ddod â darparwyr o'r Trydydd Sector a Statudol ynghyd i ddysgu, rhannu ac ymgynghori ar strategaethau aml-asiantaeth allweddol

"Ffantastig wyneb yn wyneb; cysylltiadau a chydweithio gwych... da iawn FLVC!"


"Wedi mwynhau heddiw, braf gweld pobl wyneb yn wyneb eto, a chyfarfod llu o wynebau newydd.  Rwy'n gweld digwyddiadau rhwydweithio fel hyn yn werthfawr iawn a byddwn wrth fy modd yn mynd i ragor."

"Diolch o galon mae hyn (gwybodaeth) o help mawr ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr."

# CRYNODEB CYFRIFON

Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022

## Sut y caiff Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint ei ariannu




Cyfanswm Incwm yn ystod 2021/22 **£929,307**

## Gwariant 2020/21 a 2021/22

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| Costau Staff | 411,417 | 324,939 |
| Costau Safle | 66,350 | 55,207 |
| Dibrisiant | 2,481 | 3,221 |
| Treuliau ACM | 1,790 | 1,041 |
| Ffioedd Proffesiynol | 9,454 | 6,026 |
| Gwirfoddolwyr a Hyfforddiant | 3,119 | 10,685 |
| Contractwyr ac Ymgynghorwyr | 11,362 | 17,925 |
| Yswiriant ac Indemniadau | 2,287 | 2,047 |
| Costau Llyworaethiant | 4,445 | 4,317 |
| Dosbarthu Grantiau | 237,652 | 210,813 |
| **CYFANSWM** | **£750,357** | **£636,221** |

Cyfanswm Gwariant yn ystod 2021/22 **£750,357**